Y Gyfarwyddiaeth Cynllunio
Planning Directorate

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Helen Lucocq
Prif Swyddog Cynllunio
Tîm Strategaeth a Pholisi
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas-y-Ffynnon
Cambrian Way
Aberhonddu
LD3 7HP

21 Awst 2019

Annwyl Helen

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - Cynllun Datblygu Lleol newydd - Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir: Ymateb Llywodraeth Cymru**

Diolch ichi am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir. Mae'n hollbwysig fod gan yr Awdurdod CDLl cyfoes er mwyn gallu rhoi sicrwydd i gymunedau a buddsoddwyr lleol.

Heb ragfarnu pwerau'r Gweinidogion, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) i osgoi cyflwyno cynlluniau diffygiol trwy gynnig sylwadau priodol yng nghamau cyntaf paratoi cynllun. Mae'r Llywodraeth am weld tystiolaeth glir bod profion mesur cadernid y cynllun (fel y nodir yn Ail Argraffiad 'Llawlyfr CDLl') wedi'u cynnal.

Mae Argraffiad 10 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn pennu mai'r prif flaenoriaethau cynllunio cenedlaethol yw darparu lleoedd cynaliadwy o ansawdd uchel trwy greu lleoedd. Mae'r PCC yn gofyn hefyd am ymagwedd gynaliadwy ehangach sy'n rhoi pwys ar ddatrys problemau ac sy'n canolbwyntio ar integreiddio problemau lluosog gan fynd i'r afael â nhw gyda'i gilydd er mwyn sicrhau canlyniadau cynllunio effeithiol. Mae hyn yn golygu rhoi'r gorau i'r ffordd draddodiadol o ystyried meysydd polisi ar wahân gan annog yn lle hynny mwy o bolisïau sy'n seiliedig ar le. Rhaid dangos hefyd y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio sy'n annog pawb i feddwl mewn ffordd integredig a chydweithredol wrth lunio polisïau ac sy'n amlygu'r tueddiadau tymor hir. Esbonnir yn fanylach sut i roi ar waith y meysydd polisi craidd yn PCC, megis sicrhau strategaeth ofodol gynaliadwy, twf yn yr economi a thai, darparu seilwaith a chreu lleoedd, yn Argraffiad 3 y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (DPM). Mae'r DPM ar hyn o bryd yn destun ymgynghori a chaiff ei gyhoeddi ym mis Hydref 2019. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau gadw at elfennau



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 029 2082 3732
mark.newey@gov.wales
Gwefan ● website: www.cymru.gov.uk

craidd y Llawlyfr, yn enwedig yr arweiniad a roddir ym Mhennod 5: Paratoi CDLl - Materion Craidd a'r 'rhestr ddatrisgio', wrth baratoi'r sail dystiolaeth a'u hystyried yng nghynnwys a chyflwyniad y cynllun ei hun.

**Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) at ddiben ymgynghori. Y bwriad yw mabwysiadu'r FfDC cyn bod CDLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i fod i gael ei fabwysiadu. Bydd gofyn i CDLl y Parc gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC. Dylai'r Cyngor fod yn sicr ynddo'i hun bod modd cydymffurfio'n gyffredinol.**

Nid oes gan Lywodraeth Cymru bryderon mawr ynghylch y prif faterion y mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio mynd i'r afael â nhw nac â lefel y twf o ran swyddi a thai a gynigir. Fodd bynnag, **rydyn ni yn poeni bod diffyg eglurder yn y Strategaeth a Ffefrir a'i goblygiadau o ran cynaliadwyedd, a bod traean o dwf tai'r cynllun yn cael eu dosbarthu i ardaloedd 'eraill' sydd heb eu henwi.** Er ein bod yn cydnabod natur wledig y Parc, nid yw'n glir oherwydd diffyg asesiad o aneddiadau a pholisi hierarchaeth aneddiadau a yw maint a gwasgariad y twf y tu allan i'r Prif Anheddiad Allweddol a'r Aneddiadau Allweddol a nodwyd yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, PCC a thystiolaeth y Cyngor ei hun yn ei Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA). Esbonnir hyn yn fanwl yn yr Atodiad.

Fel cynllun newydd, **mae'n destun siom mai ond ychydig o ddogfennau cefndir a phapurau pwnc sydd wedi'u cwblhau am y materion allweddol**, gan gynnwys y strategaeth ofodol, yr hierarchaeth aneddiadau, y cyflenwad tai a'i gydrannau, yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), astudiaeth hyfywedd, yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTANA) a'r astudiaeth o ynni adnewyddadwy. Rhaid wrth sail dystiolaeth gadarn er mwyn deall y Strategaeth a Ffefrir. Er bod yr ymgynghoriad yn sôn y caiff peth gwaith a rhai astudiaethau eu cynnal er budd y Cynllun Adneuo, mae'n anodd cynnig sylwadau ystyrlon ar hyn o bryd gan fod llawer ohonynt heb eu cwblhau eto. Gan fod cynllun mabwysiedig eisoes yn bod, roedd cyfle i ddefnyddio cam y Strategaeth a Ffefrir i ymgynghori ar y polisïau na ragwelir iddynt newid, yn ogystal â'r rheini y bydd angen eu newid.

Mae'n hollbwysig dangos bod y strategaeth a'r dyraniadau wedi'u cyflawni, a dylai tystiolaeth eich awdurdod gefnogi hynny yn y Cynllun Adneuo. Ceir rhagor o sylwadau yn yr atodiad i'r llythyr hwn a cheir rhagor o arweiniad yn y DPM drafft (3ydd Argraffiad).

Mae'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (PCPA) 2004, profion cadernid a'r PCC i gyd yn pwysleisio pwysigrwydd annog awdurdodau cyffiniol i gydweithio â'i gilydd i sicrhau'r canlyniadau cynllunio gorau posibl i'w cymunedau. Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog berthynas gref â'r 8 awdurdod cyffiniol. Rhaid i'r cynllun ddangos sut mae'r berthynas hon wedi dylanwadu ar y strategaeth ac wedi hynny ar bolisïau, cynigion a dyraniadau safleoedd y cynllun.

Mae ein sylwadau'n ymdrin yn fanylach â materion yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Gyda'i gilydd, mae ein sylwadau yn hoelio sylw ar amrywiaeth o faterion sydd angen ichi, yn ein barn ni, fynd i'r afael â nhw cyn bod modd ystyried bod y Cynllun yn un cadarn. Rydym wedi tynnu sylw at y mannau hynny lle nad yw'r dystiolaeth yn ddigon clir a lle bo modd gwella neu gryfhau'r sylfaen dystiolaeth wrth symud ymlaen. Mae meysydd allweddol yn cynnwys:

- Twf yr Economi a Thai - Eglurder a chyfiawnhau lefelau twf a'r cyflenwad
- Strategaeth ofodol - gwasgariad y twf
- Rhoi ar waith
- Y Gymraeg
- Tai fforddiadwy ac Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA)
- Sipsiwn a Theithwyr
- Ynni adnewyddadwy

Rydym yn eich cynghori'n gryf i fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'ch CDLl allu cael ei ystyried yn un 'cadarn' yn y cyfnod adneuo.

Byddwn yn eich annog, fel y gwnawn bob amser, i fynd ar ofyn cyngor cyfreithiol i sicrhau eich bod wedi bodloni'r holl ofynion gweithdrefnol, gan gynnwys yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan mai eich Awdurdod chi sy'n gyfrifol am y materion hyn. Dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) yn unol â Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 i asesu effaith debygol y cynllun datblygu a gynigir ar iechyd, lles meddyliol ac anghydraddoldeb, os byddai'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau dull o ddatblygu yng Nghymru sy'n seiliedig ar gynllun. Rwy'n hyderus y bydd y sylwadau hyn o fudd wrth ichi baratoi'n cynllun Adneuo ac yn sicrhau bod eich Cynllun Datblygu Lleol yn 'gadarn' ac yn cael ei fabwysiadu yn dilyn archwiliad annibynnol. Mae fy nghydweithwyr yn disgwyl ymlaen at gwrdd â chi a'ch tîm i drafod y materion sy'n codi yn sgil yr ymateb ffurfiol hwn.

Yn gywir,

**Mark Newey**
**Pennaeth y Gangen Cynlluniau**
**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**

**Atodiad i Lythyr Llywodraeth Cymru ar 21 Awst 2019 sy'n ymateb i CDLl newydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - y Strategaeth a Ffefrir**

**Twf yr Economi a Thai - Eglurder a chyfiawnhau lefelau twf a'r cyflenwad**

Mae'r Parc wedi cynnal profion ar 10 senario twf. Mae 4 ohonynt yn rhoi pwyslais ar y demograffig, 5 ar yr economi ac 1 ar dai dros y cyfnod 2017-2032. O'r 10 senario, bwrir ymlaen â 3 ohonynt er mwyn cael cynnal 'asesiad manylach'. Maent yn amrywio o 681 i 2,008 o gartrefi newydd.

Mae'r gofyn a gynigir am 1,720 o anheddau (115 y flwyddyn) yn **golygu 1,230 o unedau** (a bwrw cyfradd wag o 8.7%) **yn fwy na phrif amcanestyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer aelwydydd ar sail 2014 ac mae'n uwch na chyfraddau adeiladu'r gorffennol (70 y flwyddyn) yn y cyfnod 2007-2018.** Mae'r Parc wedi dod i'r casgliad y byddai prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn arwain at dueddiadau demograffig ac economaidd negyddol, gan gynnwys gostyngiad yn y gweithlu. Ni fyddai angen tir ychwanegol o dan y senario hwnnw ar gyfer tai newydd y tu allan i'r cyflenwad presennol a chafodd ei ddiystyru fel opsiwn rhesymol. Mae'r gofyn am dai yn ostyngiad o 270 o unedau o'i gymharu â'r gofyn o 1,990 o gartrefi yn y CDLl mabwysiedig.

Mae'r gofyn am dai (1720 gartrefi) yn cwympo rhwng Senario G: Dim Twf mewn Swyddi gyda 1,670 o unedau a Senario D: Rhagolwg Experian (18 o swyddi'r flwyddyn) o 1,881 o unedau. Er hynny, nid yw'r awdurdod wedi mynd ati i gynnal asesiad manylach o'r naill senario na'r llall yn ei Bapur Pwnc ar Dai. Mae'r pwynt hwn yn ymwneud hefyd â'r senarios twf economaidd a brofwyd lle dewiswyd y gofyn cyflogaeth o 3ha nad yw'n cyd-fynd â'r opsiwn twf economaidd a brofwyd. **Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r egwyddor o ymagwedd hybrid na'r lefelau twf a gynigir ar gyfer tai a swyddi. Ond mae angen mwy o eglurhad ynghylch sut y bydd y gofyn am dai a swyddi'n effeithio ar y prif broblemau y mae'r Parc yn ceisio'u datrys**, megis canlyniadau demograffig ac economaidd ac yng nghyd-destun eu cyflawni, adeiladu 40 o unedau'n ychwanegol y flwyddyn yn fwy na chyfraddau adeiladu'r gorffennol. Dylai twf economaidd a thai gyfateb yn fras a chefnogi'i gilydd gan fod hwn yn fater allweddol sydd wedi'i nodi gan yr awdurdod. Hefyd, dylai'r Cynllun Adneuo:

- **Esbonio a chyfiawnhau'r lwfans hyblygrwydd** - mae polisi tai strategol yr awdurdod yn neilltuo ar gyfer 1,805 o dai newydd i ddarparu'r gofyn o 1,720 o anheddau. Mae'r gwahaniaeth (85 o unedau) yn golygu lwfans hyblygrwydd o 5%. Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod gan yr awdurdod, yn y Papur Pwnc ar Dai (Tabl 7), lwfans hyblygrwydd o 10% ar gyfer dyraniadau'n unig. Mae'r lefel hon o hyblygrwydd yn anghyson ac yn aneglur. Ni ddylai'r lwfans hyblygrwydd ymwneud ag un elfen dai yn unig. Dylid ei hychwanegu at yr holl elfennau sy'n ffurfio'r ddarpariaeth dai gyfan.
- **Rhoi tystiolaeth gadarn o dybiaethau ynghylch safleoedd ar hap mawr** - mae'r lwfans safleoedd ar hap mawr, a ddisgrifir yn y papur cefndir ar dai (paragraff 5.8 a Thabl 5) yn seiliedig ar gyfartaledd o 14 y flwyddyn dros 11 mlynedd. Dywed y DPM (Argraffiad 3) na ddylid defnyddio cyfnodau pan gafwyd cyfraddau cwblhau anarferol o uchel neu isel i gyfrif cyfraddau'r dyfodol. Yn yr achos hwn, nid yw tueddiadau diweddar, lle cwblheir 8 uned y flwyddyn, yn dystiolaeth gadarn i gyfiawnhau tybiaeth yr Awdurdod o ran safleoedd ar hap. Bydd angen i'r ACLl roi tystiolaeth gadarn dros ei dybiaethau ynghylch safleoedd ar hap gan eu bod yn ein taro fel dymuniad uchelgeisiol. Roedd hyn yn bwnc trafod yn y CDLl blaenorol.
- **Nodi dyraniadau cyflogaeth** i ddiwallu'r angen yn y senario twf a ffefrir. Dylai'r polisi fod yn glir o ran eu maint, eu defnydd Dosbarth B, eu gwasgariad gofodol a sut y cânt eu rhoi ar waith;
- **Cynnwys polisi i gefnogi defnyddiau amgen** ar safleoedd cyflogaeth presennol nad ydynt wedi'u diogelu a chynnwys cyfleoedd i gefnogi'r economi leol trwy ehangu busnesau, hunangyflogaeth a micro fusnesau (TAN 6) yn y polisi, a

- Nodi safleoedd cyflogaeth sydd wedi'u diogelu a'u dyrannu sy'n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff lleol.

**Strategaeth Ofodol a Gwasgariad y Twf**

**Y Strategaeth Ofodol:**

Mae'r Parc wedi dod i'r casgliad mai strategaeth Hybrid fyddai fwyaf priodol (paragraff 5.2). Mae'r strategaeth yn ymgorffori elfennau o Opsiwn Gofodol A: Creu Lleoedd Cynaliadwy 'gydag elfennau' o Opsiwn B: Twf Economaidd ac Opsiwn C: Amrywiaeth Dwyrain / Gorllewin. Mae Opsiwn A yn ceisio canoli datblygiad yn y prif aneddiadau, sef Aberhonddu, Crucywel, y Gelli a Thalgarth a fyddai wedi cael sgôr bositif yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA). Yr hyn sy'n parhau'n **aneglur yw i ba raddau y mae Opsiynau B ac C wedi bwydo'r strategaeth ofodol;** nid oes SA wedi'i gynnal o'r opsiwn hybrid ac nid yw'n glir sut mae twf wedi'i ddosrannu. Mae'r SA wedi nodi llawer o effeithiau negyddol Opsiynau B ac C gan gynnwys colli safleoedd tir glas, cyfyngiadau oherwydd seilwaith, gorddibyniaeth ar gerbydau preifat a diffyg mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Nid yw'n glir chwaith sut y bydd y Strategaeth a Ffefrir yn effeithio ar y Gymraeg. **Mae angen eglurder felly ynghylch yr elfennau yn Opsiynau B ac C sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth ofodol, y rhesymau drostynt a'i goblygiadau gofodol,** a dylid cysylltu hynny â chanfyddiadau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) a Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy yn y PPC.

**Gwasgariad Twf Tai:**

Fe welwch wasgariad y cyflenwad tai yn Nhabl 2, sy'n dyrannu'n twf tai yn unol â'r 'strategaeth ofodol a ffefrir'. Mae'r tabl yn dangos y bydd y Prif Anheddiad Allweddol, Aberhonddu, yn gyfrifol am 38% o'r holl dwf tai a'r Aneddiadau Allweddol yng Nghrucywel, y Gelli a Thalgarth am 27%. Mae'r 35% sy'n weddill wedi'u dyrannu i ardaloedd 'Eraill'. **Nid yw'r Parc wedi cyhoeddi asesiad o aneddiadau na methodoleg i esbonio rôl a swyddogaeth lleoedd, eu capasiti, eu gwasanaethau a'u cyfleusterau. Mae hwn yn ddiffyg pwysig yn y cynllun ac yn y sail dystiolaeth.** Heb y dystiolaeth allweddol hon i esbonio'r berthynas rhwng gwasgariad tai a chynaliadwyedd lleoedd, a heb bolisi sy'n gosod allan yr hierarchaeth aneddiadau, **mae'n anodd dweud a yw'r strategaeth yn briodol, yn cydymffurfio ag egwyddorion lleoliadol allweddol PCC na chwaith a oes modd ei rhoi ar waith.**

Erbyn y cyfnod adneuo, dylai'r awdurdod:

- Roi tystiolaeth o rôl a swyddogaeth lleoedd er mwyn esbonio'n glir y cyfleoedd am safleoedd realistig ac ymarferol mewn aneddiadau, a'r cyfyngiadau arnynt. Dylai'r dystiolaeth ystyried capasiti'r seilwaith cyfredol a phosibl (yn unol â'r Cynllun Seilwaith) a ffactorau eraill a nodwyd yn PPC a'r Llawlyfr drafft ar Gynlluniau Datblygu (DPM) (Argraffiad 3);
- Nodi lleoliad aneddiadau y ceir lle ynddynt i dyfu gan gynnwys lleoliad yr ardaloedd 'eraill' y mae cyfran fawr (35% ar hyn o bryd) o'r twf tai yn y cynlluniau wedi'i neilltuo iddynt. O'i nodi, rhaid cyfleu'r hierarchaeth aneddiadau yn glir mewn polisi a diffinio lefelau twf pob haen yn Nhabl 2, ac
- Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod y cynllun yn gwneud cysylltiadau trawsffiniol strategol â Merthyr Tudful a'r Fenni (paragraff 5.13). Er mwyn i'r Fenni allu diwallu anghenion trawsffiniol, mae'r cynllun yn neilltuo 154 o unedau. Dylai'r awdurdod esbonio'r twf hwnnw a'i leoliad yn y Parc. Er enghraifft, a gaiff datblygiad ei neilltuo o fewn yr aneddiadau cynaliadwy ger y Fenni? Byddai'n ddefnyddiol cael gweld hefyd sut mae'r cynllun yn cryfhau ei gysylltiadau strategol â Merthyr.

**Rhoi ar Waith**

I roi'r strategaeth ar waith, bydd angen i'r awdurdod ddyrannu safleoedd sy'n hyfyw ac ymarferol ac sydd wedi'u lleoli yn unol â'r strategaeth ofodol a'r hierarchaeth aneddiadau. Mae'r DPM drafft (Argraffiad 3) yn gosod allan y materion allweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw (ym Mhennod 5) a dylai'r Parc sicrhau bod y cynllun Adneuo'n ymdrin â'r holl agweddau perthnasol, gan roi sylw arbennig i'r rhestr gyfeirio datrisgio. **Nid oes sôn yn y cynllun am y dyraniadau sydd eu hangen i roi'r strategaeth ar waith, na pha rai yw'r darpar safleoedd 'allweddol' na dadansoddiad ohonynt, ac ni ddangosir chwaith statws na pherthnasedd y dyraniadau personol.** Ni ddylai dyraniadau sy'n bod eisoes gael eu 'cario ymlaen' ond o dan amgylchiadau eithriadol lle ceir tystiolaeth glir a chadarn bod modd cyflenwi'r safleoedd.

I ddangos bod modd darparu safleoedd, **rhaid seilio'r Cynllun Adneuo gan waith ar ei hyfywedd, cynllun seilwaith a thrywydd tai cadarn i'w cynnwys yn yr atodiad i'r cynllun,** gyda thabl o'r cyflenwad tir ar gyfer tai. Dylai'r Cynllun Adneuo:

- roi tystiolaeth bod yr holl safleoedd wedi'u cyflenwi gan gynnwys manylion eu hamseriad, camau eu cyflwyno, eu costau a'r seilwaith sydd ei angen, gan gynnwys paratoi Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) lle bo angen, i ddangos bod y cynllun yn cael ei roi ar waith;
- Paratoi astudiaeth hyfywedd lefel uchel i fwydo'r targedau tai fforddiadwy a gwaith ar hyfywedd safleoedd penodol lle bo hynny'n briodol.
- Paratoi trywydd ar gyfer tai, gyda dadansoddiad a dealltwriaeth o amserau arwain, y berthynas rhwng safleoedd, cyfyngiadau posibl, costau, y gofynion o ran seilwaith, dwysedd a ffrydiau cyllido i gefnogi hynny, ynghyd â thybiaethau cadarn ynghylch safleoedd ar hap, a
- Gan fod cyfyngiadau ar gyfleoedd i gydariannu cytundebau adran 106, dylai'r awdurdod sicrhau ei fod yn gallu talu am yr holl seilwaith sydd ei angen.

## <u>Tai Fforddiadwy ac Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA)</u>

Rydyn ni'n cydnabod nad yw'r awdurdod mewn sefyllfa i allu paratoi LHMA sy'n benodol i ffin Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i fod yn dibynnu ar Awdurdodau Lleol eraill, yn arbennig Cynghorau Powys, Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy. Rydyn ni'n nodi yn y papur Anghenion Tai (Mai 2019) bod yr awdurdod yn rhagweld y caiff yr LHMA ei gyhoeddi cyn y cam Adneuo.

Mae'r LHMA yn nodi'r ardaloedd lle ceir angen am dai, hynny er mwyn dylanwadu ar faint, math a lleoliad y twf tai yn y cynllun. Heb dystiolaeth o'r fath, **mae'n anodd deall sut mae gwasgariad twf yn adlewyrchu'r ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf am dai.** Er mwyn mynd i'r afael â phrif faterion y cynllun o ran diwallu'r angen am dai fforddiadwy, dylai'r Cynllun Adneuo:

- Esbonio sut mae lefel yr angen yn yr LHMA a thystiolaeth leol arall lle bo'n briodol, wedi dylanwadu ar faint a lleoliad y twf sy'n gysylltiedig â hyfywedd a chynaliadwyedd llefydd;
- Cynnwys awgrym o faint yr angen am dai fforddiadwy (ar sail yr LHMA diweddaraf);
- Cynnwys targed ar gyfer darparu tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio, a
- Dangos sut y caiff y targed ei daro gan ddefnyddio tabl sy'n dangos elfennau'r cyflenwad ac agweddau eraill ar bolisi, gan gynnwys targedau a throthwyon ar gyfer safleoedd penodol, dyrannu safleoedd yn benodol ar gyfer tai fforddiadwy a pholisi sy'n cefnogi safleoedd eithriedig gwledig. Mae'r DPM drafft (Argraffiad 3) yn rhoi arweiniad manwl ar ddatblygu fframwaith polisi ar dai fforddiadwy a phrofion hyfywedd.

## <u>Y Gymraeg</u>

Mae Papur Pwnc y Gymraeg (Mehefin 2019) yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith a'r rhan annatod y mae'n ei chwarae ym mywyd cymunedau yn y Parc. Fodd bynnag, nid oes gan y cynllun bolisi, trothwy nac ardaloedd sensitif Cymraeg i gefnogi'r farn honno. Gweler hefyd y sylwadau ar y Strategaeth Ofodol. Dylai'r Cynllun Adneuo:

- Esbonio sut y mae'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig yng ngorllewin y Parc, wedi dylanwadu ar raddfa a lleoliad twf a datblygiad tai. Gan nad oes prawf wedi'i gynnal yn yr SA o'r opsiwn gofodol a ffefrir gan yr awdurdod, nid yw ei oblygiadau i'r Gymraeg ac unrhyw waith lliniaru yn glir, ac
- Os yn briodol, nodi yn y polisi yr ardaloedd sensitif Cymraeg lle ceir mwy na'r trothwy o bobl yn siarad Cymraeg a chynnwys y gofyn am Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg ar safleoedd ar hap na ragwelwyd mohonynt yn unig.

## Y Ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Nid y Parc yw awdurdod tai yr ardal. Rydyn ni'n cydnabod bod y gwaith o baratoi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTANA) allan o reolaeth y Parc i raddau helaeth. Serch hynny, mae angen cynnal asesiad, i gydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014. I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio, **rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chytuno ar GTANA cyn y cam adneuo ar gyfer cyfnod llawn y CDLl (2018-2033) gyda darpariaeth ar gyfer dyrannu safleoedd priodol ac ymarferol i ddiwallu'r angen a nodwyd o fewn yr amserlen ofynnol**, os yn briodol. O beidio â pharatoi GTANA a diwallu'r angen gofynnol, ni fydd y cynllun yn debygol o gael ei ystyried yn un 'cadarn'. Byddwn yn pwyso ar yr awdurdod i weithio gyda Llywodraeth Cymru (Adran Cydraddoldebau) i sicrhau bod tystiolaeth yn ei lle erbyn y cam adneuo.

## Ynni Adnewyddadwy

Mae'r cynllun yn cefnogi datblygu ynni adnewyddadwy cynaliadwy (CDLl, paragraff 5.57) ond nid oes tystiolaeth wedi'i pharatoi hyd yma. At ddiben y Cynllun Adneuo, **bydd yr awdurdod yn cynnal Asesiad o Ynni Adnewyddadwy (REA)** i bennu cyfraniad y Parc at gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yng Nghymru. O'r asesiad hwn, dylai'r awdurdod allu esbonio sut mae ei bolisi ar ynni adnewyddadwy wedi'i ddatblygu yn unol â'r PCC a Phecyn Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllunwyr (2015) gan ystyried yr holl agweddau perthnasol a lle bo gofyn, gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth lle gall y Pecyn hwyluso hynny. Dylai'r Cynllun Adneuo:

- O'r Ardaloedd Blaenoriaeth Ynni a nodir yn yr NDF drafft, dylai'r awdurdod esbonio sut mae cyfleoedd ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal yn Aberhonddu wedi'u harchwilio;
- Dangos sut y mae'r REA wedi'i ymgorffori ym mhroses y safle ymgeisiol ac esbonio sut y mae cyfleoedd ynni adnewyddadwy a charbon isel wedi llywio maint/lleoliad y dyraniadau;
- Cynnwys yn y polisi (a'r fframwaith monitro) gyfraniad y cynllun at ddatblygu a hwyluso ynni adnewyddadwy a charbon isel, a
- Cynnwys yn y fframwaith polisi gyfleoedd ar gyfer cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol.

## Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV)

Diffinnir mai'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV) yw tir graddau 1, 2 a 3a a dylid eu cadw. Mae Aneddiadau Allweddol Aberhonddu, y Gelli a Thalgarth i gyd mewn ardaloedd BMV ac mae nifer o safleoedd ar y Gofrestr Darpar Safleoedd a basiodd yr asesiad Cam Un ar ryw 13ha o dir BMV. Dylai'r Cynllun Adneuo **esbonio'n glir sut mae tir BMV wedi llywio datblygiad y strategaeth ofodol a'i goblygiadau i diroedd BMV trwy ddefnyddio'r dilyniant chwilio** a ddisgrifir yn PCC. Rydyn ni'n eich cynghori i siarad â'ch cydweithwyr yn y Tîm Amgylcheddol wrth symud at y cam adneuo.

*******************